# Cael gwared ar elw o ofal Plant

## Gwybodaeth i blant a phobl ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Beth yw hyn?

Mae hyn yn ymwneud â chynllun Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod unrhyw arian sy'n cael ei wneud o ofalu am blant mewn gofal yn mynd yn ôl i'w helpu, ac nid i wneud elw i unigolion neu fusnesau.

## Beth yw elw?

Elw yw'r arian ychwanegol rydych chi'n cael ei gadw ar ôl i chi dalu am bopeth sydd ei angen arnoch.

Dychmygwch eich bod chi'n berchen ar gartref plant. Rydych yn gwario rhywfaint o arian ar dalu'r bobl sy'n gofalu am y plant, a rhywfaint o arian ar ofalu am yr adeilad. Elw yw'r arian ychwanegol sydd gennych i'w gadw ar ôl i chi dalu am yr holl bethau yma.

## Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud?

### O 1 Ebrill 2026

- Ni fydd unrhyw wasanaethau maethu newydd na chartrefi plant newydd yng Nghymru yn cael agor os ydyn nhw'n bwriadu gwneud elw. Bydd cynghorau ac elusennau yn dal i allu agor gwasanaethau maethu neu gartrefi plant newydd.
- Caiff busnesau sy'n gwneud elw o gartrefi plant neu ofal maeth yng Nghymru ar hyn o bryd barhau i weithredu ond rhaid iddyn nhw gadw at reolau newydd **o 1 Ebrill 2027**. Bydd y rheolau hyn yn eu hatal nhw rhag tyfu eu busnes.

### O 1 Ebrill 2030 (neu'n gynharach)

Ni fydd unrhyw gartrefi plant na gwasanaethau gofal maeth yn cael gwneud elw. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaethau, nid i wneud arian i'r busnesau hyn. Efallai y bydd rhai achosion arbennig lle gall busnesau sy'n gwneud elw ddal i ofalu am blant a phobl ifanc os mai nhw yw'r unig rai sy'n gallu darparu'r gofal cywir.

## Pam mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn?

- Rydym am i'r holl arian sy'n cael ei wario ar ofalu am blant yng Nghymru gael ei ddefnyddio ar gyfer hynny yn unig. Er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd, ni fydd gwasanaethau maethu a busnesau cartrefi plant yn cael gwneud elw o ofalu am blant. Fel hyn, bydd yr holl arian yn mynd tuag at helpu a chefnogi plant.
- Rydym yn gwneud y newidiadau hyn yn rhannol oherwydd bod rhai plant mewn gofal wedi gofyn amdanyn nhw. Maen nhw'n meddwl ei bod hi'n anghywir i fusnesau wneud arian o ofalu amdanyn nhw.
- Mae'r system bresennol yn costio llawer iawn ac nid yw bob amser yn rhoi'r gofal sydd ei angen ar blant, yn lle y maen nhw ei angen. Credwn y bydd y newid hwn yn gwella pethau yn y dyfodol ac yn gwella'r gofal y gallwn ei roi i blant a phobl ifancac.

## Rydym yn gwneud y newidiadau hyn ynghyd â gwelliannau eraill. Rydym hefyd yn gweithio ar y pethau canlynol:

- Gwneud yn siŵr bod pawb sy'n helpu i ofalu am blant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y plant a phobl ifanc hyn yn cael gofal ac yn gwneud yn dda.
- Cael mwy o ofalwyr maeth yng Nghymru.
- Gwneud yn siŵr bod gennym ddigon o gartrefi plant da i blant yng Nghymru.

## Beth mae hyn yn ei olygu i blant mewn cartrefi plant neu mewn gofal maeth?

Dydyn ni ddim eisiau newid lle mae plant yn byw os nad ydyn nhw eisiau iddo newid. Dyna pam rydyn ni'n gwneud y newidiadau hyn yn araf. Rydym hefyd yn gweithio gyda chynghorau, arolygwyr gofal, a phobl sy'n rhedeg cartrefi gofal a gofal maeth oherwydd eu bod nhw'n gwybod llawer am helpu plant.

Mae gennych hawl i wybod beth rydyn ni'n ei wneud a chael eich cynnwys mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanoch chi. Mae'r hawl hwn wedi'i gynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac wedi'i amddiffyn mewn cyfraith pan ddaw i benderfyniadau am eich lleoliad. Byddwn yn gwneud ein gorau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac i eraill sy'n gweithio gyda chi.

## Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag eraill i wneud y newidiadau hyn?

Oherwydd bod llawer i'w wneud, rydyn ni'n gweithio gyda llawer o wahanol bobl a busnesau i wneud y newidiadau hyn.

Mae gennym grŵp dan arweiniad Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru o'r enw Bwrdd Rhaglen. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn dda.

## Dw i eisiau gwybod mwy am hyn

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am hyn, gallwch hefyd siarad gydag oedolyn rydych yn ymddiried ynddo. Gall hwn fod yn weithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth, gweithiwr achos, cynghorydd personol neu eiriolydd.

Gallwch gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth gan ddarparwyr eiriolaeth ar draws Cymru. Cymorth eiriolaeth yw pan fydd rhywun yn eich helpu i godi llais a gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed. Mae manylion cyswllt isod.

### Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru:

Rhif ffôn (am ddim): 0808 808 1001

Gwefan: www.nyas.net

### Tros Gynnal Plant (TGP Cymru):

Rhif ffôn: 029 2039 6974

Gwefan: www.tgpcymru.org.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51628